Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Awdurdod lleol sy'n peri pryder sylweddol

**Cyngor Sir Penfro**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA61 1TP**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Barnwyd bod Cyngor Sir Penfro wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn 2019, a bydd yn cael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol peri pryder sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith**

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o’r deilliannau oherwydd effaith y pandemig COVID-19, a arweiniodd at atal arolygiadau o ysgolion a’r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022. Mae hefyd oherwydd y diffyg data cenedlaethol cymharol ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros amser, gan i’r pandemig achosi newidiadau yn y modd y dyfarnwyd cymwysterau.

Ers yr arolygiad, mae’r awdurdod lleol wedi adolygu ei ymagwedd at gynorthwyo ysgolion i wella. Mae wedi gwneud penodiadau allweddol sydd wedi dod ag ansawdd a phrofiad gwerthfawr i waith y gwasanaeth. Bu gwelliant sylweddol mewn perthnasoedd gwaith ag ysgolion, a fu’n rhannol yn un o sgil-gynhyrchion yr ymgysylltiad cynyddol a’r cymorth pwysig a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod cyfnod clo COVID-19. Mae’r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas waith fwy cynhyrchiol ag ysgolion drwy gynnwys penaethiaid mewn grwpiau cyfeirio a cheisio eu barn ar ddatblygiadau newydd.

Mae’r awdurdod lleol wedi datblygu dealltwriaeth gliriach o lawer o gryfderau a gwendidau ei ysgolion. Mae swyddogion yn ystyried ystod o ddangosyddion a gwybodaeth o ymgysylltu ag ysgolion i helpu i lywio’r drafodaeth ag arweinwyr ysgolion ynghylch pa gymorth y gallai fod ei angen. Mae swyddogion yn nodi’r ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar ac yn ymyrryd, lle bo’n briodol.

Mae’r pandemig wedi cynyddu’r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu, yn enwedig o ran y bylchau mewn dysgu a medrau gwannach mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a Chymraeg. Mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu grwpiau strategol mathemateg ac iaith, sy’n cynnwys penaethiaid, a rhwydweithiau arweinwyr pwnc sy’n cyfrannu at y flaenoriaeth i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd. Mae ei ymagwedd wedi’i seilio ar gydweithio â phartneriaid, cynnig eglurder a chyfarwyddyd i arweinwyr ysgolion, nodi a chomisiynu cyfleoedd dysgu proffesiynol a hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi’r arweiniad mae swyddogion yn ei roi, ond hefyd yr ymddiriedaeth ynddynt ddod o hyd i’w hatebion eu hunain i’r heriau yn gysylltiedig â chodi safonau. Mae’r gwasanaeth gwella ysgolion, sef ‘Partneriaeth’, yn cefnogi ac yn ategu gwaith y grwpiau strategol trwy ddysgu proffesiynol a chymorth gan ymgynghorwyr gwella meysydd pwnc.

Mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu rhwydweithiau i gefnogi’r dysgu rhwng ysgolion yn y meysydd allweddol hyn. Mae gwerthusiad yr awdurdod lleol yn dangos y bu mwy o gynnydd mewn iaith a llythrennedd nag mewn mathemateg a rhifedd. Mae ein gwaith

ag ysgolion sy'n peri pryder yn dangos bod safonau wedi gwella a bod y sylfeini ar waith i gynnal y gwelliant hwn.

At ei gilydd, cyflwynodd yr awdurdod lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) tra ystyriol. Ymgynghorodd swyddogion ag ystod eang o bartneriaid wrth ei ddatblygu ac mae'r cynllun yn nodi cynigion a fyddai, o gael eu rhoi ar waith, â'r potensial i wella'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sylweddol ar draws rhan helaeth o'r awdurdod lleol.

Un o nodweddion allweddol y CSCA yw gwella darpariaeth ac ansawdd y Gymraeg yn ysgolion yr awdurdod lleol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r angen i gynnig mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff, ac mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am y gwaith hwn wedi datblygu cyfres eang o adnoddau i ysgolion sydd wedi cael eu croesawu'n fawr. Mae ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi rhoi blaenoriaeth uchel i wella medrau Cymraeg eu staff addysgu a staff cymorth, sydd wedi cyfrannu'n dda ar wella eu darpariaeth Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal gwaith ffocysedig mewn un ysgol uwchradd a thair o'i hysgolion bwydo. Nod y peilot hwn yw darparu glasbrint ar gyfer gwella'r gwaith o gyflwyno'r Gymraeg ar draws ysgolion cyfrwng Saesneg yr awdurdod lleol. Mae bron pob pennaeth yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a ddarperir gan dîm yr awdurdod lleol.

**Argymhelliad 2: Gwella'r deilliannau ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n fwy abl**

Mae ymagwedd yr awdurdod lleol at wella deilliannau i ddysgwyr wedi'i seilio ar wella addysgu a dysgu ar draws ei ysgolion. Mae ymweliadau ymgynghorwyr gwella ag ysgolion yn canolbwyntio ar gryfhau'r cymorth a monitro darpariaeth i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr difreintiedig. Mae gwerthusiadau cynnar trwy holiaduron a thrafodaethau ag arweinwyr ysgolion yn awgrymu bod gan arweinwyr ysgolion ddealltwriaeth well o'r rhwystrau rhag dysgu i ddysgwyr difreintiedig a sut y gallant fynd i'r afael â nhw'n fwy effeithiol.

Mae gan bob ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd targedig ymagwedd tiwtora cyfoedion at gynorthwyo dysgwyr difreintiedig. Mae'r ymagwedd hon yn dechrau ennill ei phlwyf ac mae adborth gan diwtoriaid a thiwtoreion yn gadarnhaol. Mae cyflwyno hyfforddiant i diwtoriaid cyfoedion mewn ysgolion yn cynyddu capasiti ac yn dechrau cryfhau effaith yr ymagwedd.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod o ymagweddau i sicrhau bod dysgwyr yn symud ymlaen i lwybrau hyfforddiant neu gyflogaeth ystyrlon. Mae'r rhain yn cynnwys ehangu'r cyfleoedd galwedigaethol i ddysgwyr, fel trwy'r cynllun Prentisiaethau Iau, y mae ychydig ohonynt ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglen cyn ymgysylltu (PEP) yn cefnogi anghenion y dysgwyr Blwyddyn 11 mwyaf bregus yn dda ac yn lleihau'r perygl ohonynt yn dod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)., Mae'r ymagweddau hyn, ar y cyd â chymorth sydd eisoes wedi'i hen sefydlu, gan gynnwys prosiect Cynnydd[1] a'r tîm o amgylch disgyblion, rhieni ac ysgolion (TAPPAS), yn cynnig cymorth mwyfwy effeithiol i'r dysgwyr mwyaf bregus.

---

[1] *Mae Cynnydd yn rhaglen ranbarthol drwy Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd â'r nod o gynorthwyo disgyblion rhwng 11 a 24 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg. Mae rhaglen*

Mae lansio strategaeth tair blynedd yn ddiweddar ar gyfer ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles yn cynnig trosolwg gwerthfawr o strategaethau ac ymyriadau i ysgolion gefnogi a hyrwyddo'r agwedd bwysig hon i ddysgwyr. Caiff y strategaeth ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles ei hategu gan gyfleoedd hyfforddiant arbenigol, sy'n cynnwys mewnbynnau i ddeall yn well effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Mae'r ymagwedd hon yn cyfrannu at leihau ffigurau gwahardd ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r awdurdod lleol wedi peilota hyfforddiant llythrennedd emosiynol i gynorthwywyr cymorth hefyd i helpu ysgolion i gynnig ymyriadau i wella lles disgyblion. Mae deilliannau'r peilot yn galonogol a bu gwelliant sylweddol mewn mesurau lles dysgwyr ar ôl y rhaglen ymyrraeth chwe wythnos.

Mae ffocws yr awdurdod lleol ar wella deilliannau i bob dysgwyr â chyflawniad uwch yn cynnwys cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar raglenni penodol, fel rhaglen 'Seren' a chyfleoedd cwricwlaidd ychwanegol, fel Dosbarthiadau Meistr mewn Athroniaeth. Mae hyn yn cyfrannu at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n ymuno â phrifysgolion Grŵp Russell.

Mae cymorth effeithiol ar waith i'r awdurdod lleol reoli diwygio anghenion dysgu ychwanegol. Mae swyddogion wedi gwella eu prosesau i gefnogi'r paneli cynlluniau datblygu unigol (CDU), cynyddu cyfranogiad cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) ym mhrosesau penderfynu'r awdurdod lleol a gwella cysylltiadau â'r bwrdd iechyd rhanbarthol. Mae'r platfform ar-lein ar gyfer CDUau ar waith ac yn effeithiol, ac mae'n helpu i rannu gwybodaeth ag asiantaethau, ysgolion, rhieni a gofalwyr i fodloni anghenion dysgwyr dynodedig yn well.

### Argymhelliad 3: Gwella effeithiolrwydd gwaith yr awdurdod i wella addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu ei ffocws ar wella addysgu a dysgu ar draws ei ysgolion. Yn ystod pandemig COVID-19, cydweithiodd swyddogion yr awdurdod lleol ag ymarferwyr o ystod o ysgolion, ynghyd â'r partneriaid rhanbarthol cefnogi ysgolion, i ddatblygu a hyrwyddo ystod o adnoddau dysgu a deunyddiau hyfforddiant. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau arfer dda o strategaethau dysgu cyfunol, wedi'u seilio ar ymchwil gadarn ac arfer sefydledig. Cyflwynodd yr awdurdod lleol blatfform digidol i ysgolion i'w galluogi i rannu adnoddau a chynnig cymorth i athrawon. Mae'r awdurdod lleol wedi ailwerthuso addasrwydd y platfform ar ôl cael adborth gan benaethiaid ac wedi penderfynu symud yr adnoddau i blatfform digidol Hwb Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ei barodrwydd i wrando ar arweinwyr ysgolion ac addasu ei gymorth i fodloni eu hanghenion yn well.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda ag arweinwyr a staff ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth well o ddulliau addysgu a dysgu wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar ddulliau wedi'u seilio ar ymchwil, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cydweithio â'r Sefydliad Gwaddol Addysg, ymarferwyr arweiniol a hwyluswyr i ddarparu arweiniad a chymorth defnyddiol i athrawon ac arweinwyr. Mae swyddogion yr awdurdod lleol hefyd yn cydnabod ac yn pwysleisio

---

*Cynnydd Cyngor Sir Penfro yn cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn, ac ar draws, yr holl ysgolion uwchradd ac unedau arbennig yn Sir Benfro.*

bod arweinwyr ac athrawon yn aml yn y sefyllfa orau i benderfynu pa ddulliau sy'n gweithio yn eu cyd-destun unigol.

Bu'r awdurdod lleol, 'Partneriaeth' a darparwyr allanol yn cydweithio ag ysgolion hefyd ar ddylunio'r cwricwlwm i'w helpu i baratoi i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Mae'r gweithdai hyn wedi cynnig cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau mewn ysgolion clwstwr a rhyngddynt. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu'r perthnasoedd gwaith gwell rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion ac mae gan y ddau ohonynt ddealltwriaeth well o'u cydgyfrifoldeb i wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cydweithio'n dda ag arweinwyr cwricwlwm o 'Partneriaeth' i helpu i ddatblygu arweiniad defnyddiol ar feysydd cwricwlaidd allweddol, fel crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Un o nodweddion nodedig y newid mewn diwylliant ar draws yr awdurdod lleol yw cyflwyno'r ymagwedd newydd at drefniadau rheoli perfformiad ysgolion wedi'i seilio ar y dull 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'. Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â 'Partneriaeth' i ddatblygu'r gwaith hwn ar sail dulliau hyfforddi a mentora ac mae bron pob ysgol wedi dewis cymryd rhan.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu cymorth, arweiniad a chyfleoedd dysgu proffesiynol i arweinwyr ysgolion, yn enwedig arweinwyr canol, sydd wedi'u croesawu'n fawr. Un o sgil-gynhyrchion y gwaith hwn fu sefydlu rhwydweithiau i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i annog cymorth gwell rhwng ysgolion a rhannu arfer effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu rhwydweithiau ag ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos. Un o nodweddion datblygol gwaith yr awdurdod lleol yw sefydlu trefniadau ffederasiwn meddal rhwng ysgolion, yn enwedig y rhai sy'n wynebu problemau wrth recriwtio. Hyd yn hyn, rhoddwyd trefniadau ar waith ar gyfer pum pennaeth gweithredol ers yr arolygiad diwethaf. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn helpu i ddarparu arweinyddiaeth sefydlog a phrofiadol yn yr ysgolion hyn.

Adeg yr arolygiad, mae tair o ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol mewn categori gweithgarwch dilynol. Ers hynny, mae dwy ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i'w tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol, er bod un ysgol uwchradd wedi dangos cynnydd cyfyngedig yn unig yn erbyn yr argymhellion o'i harolygiad tan yn ddiweddar. Mae gwelliannau diweddar mewn arweinyddiaeth, addysgu a pherthynas gryfach â'r ysgolion yn ei chlwstwr wedi helpu'r ysgol hon i wneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan y tîm arolygu craidd.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi ymdrechu i gryfhau ei ymagwedd at broffesiynoli llywodraethwyr ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys darparu proses hunanadolygu ddiweddaredig i gyrff llywodraethol, yn ogystal â datblygu cronfa o adnoddau i gynorthwyo llywodraethwyr i ofyn cwestiynau priodol am y cwricwlwm, addysgu a dysgu fel rhan o'u rôl. Mae swyddogion hefyd wedi trefnu cynhadledd wyneb-yn-wyneb ac ar-lein i rannu arfer dda a chanolbwyntio ar themâu allweddol fel dysgu proffesiynol a lles. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod heriau o hyd o ran denu llywodraethwyr i'r digwyddiadau hyn a sicrhau eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant addas yn rheolaidd i gefnogi eu hysgolion yn well.

**Argymhelliad 4: Cryfhau ansawdd gwerthuso gan swyddogion ar bob lefel i wella manylder y cynllunio ar gyfer gwelliant**

Gweithredodd uwch arweinwyr gwasanaethau addysg ar ganfyddiadau'r arolygiad ym mis Rhagfyr 2019. Datblygwyd strategaeth addas ganddynt i gynorthwyo swyddogion sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg i fod â dealltwriaeth well o sut gallant werthuso effaith eu gwaith a sut i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella. Er y gohiriwyd rhoi'r strategaeth hon ar waith oherwydd blaenoriaethau eraill yn ystod y pandemig, mae gwaith wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae swyddogion ar bob lefel wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol defnyddiol a deialog ynghylch gwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae hyn yn arwain at newid diwylliannol yn y ffordd mae swyddogion yn cynllunio eu gwaith trwy fod â ffocws cliriach cyn cymryd camau ar sut byddant yn gwerthuso'r effaith. O ganlyniad, mae swyddogion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am y graddau y mae camau gweithredu yn dechrau cael yr effaith ddymunol. Yn bwysig, mae'r awdurdod yn canolbwyntio ar welliannau cynaliadwy mewn deilliannau i ddysgwyr.

Mae gan uwch swyddogion drosolwg da o ansawdd gwaith swyddogion. Maent yn agored ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda ac nad yw'n gweithio'n dda. Maent yn monitro'n rheolaidd adroddiadau y mae swyddogion yn eu llunio am ysgolion unigol neu wasanaethau addysg. Maent yn herio swyddogion os nad ydynt yn fodlon ag ansawdd adroddiad ac yn eu cynorthwyo i wella. At ei gilydd, mae gwerthusiadau swyddogion yn fwy miniog a defnyddiol nag ar adeg yr arolygiad.

Mae llawer o gynlluniau ar gyfer gwella yn cynnwys camau gweithredu pwrpasol sy'n gysylltiedig â nodau strategol. Mae'r camau gweithredu hyn wedi nodi swyddogion arweiniol, yr adnoddau a ddyrannwyd ac yn amlinellu sut caiff y gwaith ei werthuso a pha effaith a ddisgwylir. Mae uwch swyddogion yn ymwybodol o gynlluniau nad ydynt yn bodloni eu disgwyliadau ac yn cynnig cymorth a her briodol i swyddogion arweiniol.

Bu 'Partneriaeth' yn gweithredu fel gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol newydd er mis Ebrill 2022, gan gynnig dysgu proffesiynol i ysgolion yn yr awdurdod lleol. Mae uwch swyddogion yr awdurdod yn herio swyddogion 'Partneriaeth' ynghylch ansawdd gwerthusiadau o'u gwaith lle nad yw'n cynnig gwybodaeth am effaith y gwasanaeth.

Mae uwch swyddogion yn defnyddio partneriaid allanol yn dda i gefnogi eu gwerthusiadau a chynllunio gwelliant, er enghraifft trwy benaethiaid cynrychioliadol a'r bwrdd gwella addysg.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**